# Tynnu sylw at sgamiau ar-lein

Mae sgamiau ar-lein yn cynnwys twyllo a chamfanteisio ar unigolion gyda'r pwrpas o ennill rhywbeth o werth, fel gwybodaeth bersonol sensitif neu arian. Maen nhw'n gallu digwydd ar wefannau, mewn gemau, ar y cyfryngau cymdeithasol ac mewn negeseuon uniongyrchol (DMs).

## Risgiau posibl

**Dwyn cyfrif**
Efallai y bydd sgamwyr yn gofyn i ddefnyddwyr roi eu data personol ar wefannau ffug neu'n siarad â defnyddiwr gyda'r bwriad o ddwyn ei wybodaeth bersonol. Os bydd sgamiwr yn llwyddiannus, gall yr wybodaeth bersonol y mae wedi'i dwyn ganiatáu i'r sgamiwr gael mynediad i gyfrif cyfryngau cymdeithasol neu gêm ar-lein person ifanc.

**Cynnig sy'n rhy dda i fod yn wir**
Gall sgamwyr awgrymu bargeinion neu gyfnewid rhywbeth (er enghraifft, cynnig eitem werthfawr mewn gêm am chwarter y pris) neu hyd yn oed gynnig swyddi â chyflog uchel - pethau sy'n ymddangos yn rhy dda i'w gwrthod. Mae'r senarios hyn yn sgamiau sydd wedi'u cynllunio i gymryd arian neu fanylion personol defnyddiwr.

**Cynigion neu wobrau ffug**
Mae sgamwyr yn aml yn hyrwyddo cynigion neu wobrau ffug ar y cyfryngau cymdeithasol neu mewn gemau ar-lein sy'n addo symiau mawr o arian go iawn, arian cyfred yn y gêm, neu gynlluniau aelodaeth premiwm am ddim neu am dâl bychan. Yn aml, caiff defnyddwyr gyfarwyddyd i gwblhau tasg fach i dderbyn eu gwobr, fel 'dilysu' eu cyfrif, neu lenwi arolwg.

**Perthynas ffug**
Efallai y bydd sgamwyr yn ceisio cymryd rhan mewn math o flacmel o'r enw blacmel rhywiol (neu 'sextortion') lle maen nhw'n bygwth rhannu delweddau rhywiol o rywun yn gyhoeddus. Mae'r sgamwyr hyn yn caffael delweddau rhywiol trwy ddynwared rhywun ar y cyfryngau cymdeithasol neu mewn gêm ar-lein, a ffugio diddordeb rhamantus yn y dioddefwr. Unwaith y bydd y sgamiwr yn derbyn y delweddau, bydd yn aml yn bygwth eu rhannu oni bai bod y dioddefwr yn anfon arian ato.

## Cyngor ymarferol

**Cloi cyfrifon**
Lle bo modd, cofiwch alluogi dilysu aml-ffactor neu ddilysu 2-ffactor bob amser. Mae hyn yn golygu y bydd angen i sgamwyr sy'n llwyddo i ennill manylion mewngofnodi eich plentyn ddarparu manylion ychwanegol neu hyd yn oed ddyfeisiau i gael mynediad i'r cyfrif.

**Gwrandewch ar eich greddf, nid y fargen**
Siaradwch â phlant i sicrhau eu bod yn gwybod y gallan nhw siarad â chi os ydyn nhw'n gweld cynnig sy'n ymddangos yn rhy dda i fod yn wir. Dylech eu hannog i wirio adolygiadau neu rybuddion, edrych ar broffil y person sy'n cynnig bargen ar y cyfryngau cymdeithasol, a siarad ag oedolyn maen nhw'n ymddiried ynddo. Yn olaf, gwnewch yn siŵr eu bod yn deall os yw rhywbeth yn teimlo'n anghywir, mwy na thebyg ei fod yn anghywir.

**Peidiwch â chael eich dallu gan roddion ffug**
Os yw cynnig neu rodd yn gofyn am wybodaeth bersonol, manylion mewngofnodi cyfrif neu hyd yn oed eitemau mewn gêm, dylai'ch plentyn osgoi ymateb. Ni fydd rhoddion o ffynonellau dibynadwy byth yn gofyn am y manylion hyn yn gyfnewid am wobrau.

**Peidiwch ag ildio**
Yn aml mae sgamwyr sy'n cymryd rhan mewn achos o flacmel rhywiol yn ceisio ynysu'r dioddefwr i wneud iddo/iddi deimlo'n ddi-rym. Fodd bynnag, mae cymorth proffesiynol ar gael i bobl ifanc bob amser. Gallwch ddysgu mwy am flacmel rhywiol er mwyn rhoi'r cymorth priodol i'ch plentyn a sicrhau ei fod yn gwybod y gall droi atoch am gymorth bob amser, waeth beth yw'r broblem.

Am ragor o wybodaeth

Hwb®

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

OGL © Hawlfraint y Goron / Crown copyright 2025 WG51495